

# Arolwg Toiledau Lleol - Haf 2018

Arolwg yw hwn i unrhyw un sy'n byw yn neu'n ymweld â Thorfaen, sydd â diddordeb mewn a oes toiledau ar gael a/neu'n hygyrch y tu allan i'w cartrefi eu hunain.

Efallai eich bod yn rhywun sydd angen defnyddio toiledau cyhoeddus yn rheolaidd, neu'n rhywun sydd angen nodweddion penodol mewn toiledau, fel toiled hygyrch (anabl) neu le i newid sy'n cynnig nodweddion ychwanegol fel peiriant codi.

Mae'r arolwg hefyd yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n gofalu am oedolyn neu blentyn sydd angen cyfleusterau toiled neu leoedd newid hygyrch pan fyddant i ffwrdd o'u cartref. Does dim angen i chi fod yn ofalwr cofrestredig, na'n cael eich talu am eich help, i allu ateb ar eu rhan. Efallai eich bod chi'n ffrind, yn bartner neu'n aelod o'r teulu, neu efallai ond yn eu helpu'n achlysurol. Rydym yn croesawu pob cyfraniad. Os hoffech ymateb ar ran nifer o bobl, bydd angen i chi gwblhau'r arolwg nifer o weithiau.

Bydd yr holl sylwadau'n cael eu hystyried yn ofalus a'u defnyddio i ddatblygu Strategaeth Toiledau Lleol i Dorfaen.

Er nad oes gofyn cyfreithiol i gynghorau ddarparu toiledau cyhoeddus, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn parhau i reoli nifer o doiledau cyhoeddus traddodiadol ac yn croesawu bod y cyhoedd yn defnyddio toiledau yn nifer o'n hadeiladau. Yn anffodus nid oes gennym gyllid ar hyn o bryd i wella'r cyfleusterau presennol. Serch hynny, rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu, trwy ddatblygu dealltwriaeth drwyadl o brofiadau pobl o ddefnyddio toiledau mewn lleoedd cyhoeddus, asesu'r angen am welliannau ac ystyried sut y gallem weithio gyda busnesau a phartneriaid eraill i gael hyd i atebion i'r materion yma.

## Cyfleusterau Newid Babanod

Nodwch os gwelwch yn dda fod gennym ni arolwg ar wahân ar gyfer unrhyw un sydd am roi barn ar gyfleusterau newid babanod. Mae hwn hefyd ar gael ar wefan ymgynghorol 'Cymerwch Ran'.

Ym mha ardal(oedd) yn Nhorfaen ydych chi'n defnyddio toiledau cyhoeddus?

- Blaenafon
- Cwmbrân
- Pont-y-pŵl
- Arall (Dywedwch ble)

## Adran 1: Eich anghenion

Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda a ydych yn ateb ar eich rhan chi eich hunan neu ar ran rhywun arall

- Mae fy ateb ynglŷn â'm hanghenion fy hun
- Mae fy ateb ynglŷn ag anghenion rhywun arall

Beth yw eich anghenion, neu anghenion y person yr ydych yn ateb ar eu rhan:

- Rydw i/maen nhw'n gallu defnyddio toiledau cyffredinol
- Rydw i/maen nhw angen toiled hygyrch (toiled i'r anabl)
- Rydw i/maen nhw angen Lle Newid (toiled gwbl hygyrch gyda lle ychwanegol a chyfarpar, gan gynnwys mainc newid y mae modd newid ei huchder a pheiriant codi)

Dywedwch wrthym ba gyfleusterau/darpariaeth penodol sy'n bwysig i chi

- System larwm i alw am help
- Mainc newid
- Toiled yn y canol (trefn gorynys gyda lle i ofalwyr ar bob ochr)
- Asennau i afael ynddynt
- Basn ymolchi ar uchder amrywiol
- Peiriant codi
- Llawr di-lithro
- Sgrîn neu len ar gyfer preifatrwydd
- Cawod
- Digon o le er mwyn i fy ngofalwyr fy helpu
- Bin sbwriel ar gyfer padiau tafladwy
- Mynediad i Gadair Olwyn
- Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

## Adran 2: Eich barn a'ch profiadau

Dywedwch i ba raddau yr ydych yn cytuno â'r gosodiadau canlynol:

	Cytuno'n gryf	Tueddu i Gytuno	Niwtral	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
Mae yna ddigon o doiledau cyhoeddus i alluogi i fi adael fy nghartref heb bryder sylweddol ynglŷn ag angen defnyddio'r toiled.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae yna ddigon o wybodaeth ynglŷn â lleoliad toiledau cyhoeddus a'r cyfleusterau y maen nhw'n eu cynnig	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Mae gan archfarchnadoedd ddigon o gyfleusterau toiledau i alluogi i fi siopa yno	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae digon o gyfleusterau toiled yng nghanol trefi i alluogi i fi siopa yno	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae digon o gyfleusterau toiled mewn ystadau manwerthu a masnach i alluogi i fi siopa yno	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae fy newis o siopau yn gyfyngedig oherwydd diffyg toiledau addas	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Rydw i wedi cael trafferth teithio i fy ngwaith, o fewn Torfaen, oherwydd diffyg cyfleusterau toiled rhwng fy nghartref a'r gweithle	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

	Cytuno'n gryf	Tueddu i Gytuno	Niwtral	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
Mae yna ddigon o gyfleusterau toiledau cyhoeddus i alluogi i fi gwrdd â theulu neu ffrindiau mewn lleoedd cyhoeddus.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae diffyg cyfleusterau toiledau cyhoeddus yn fy atal rhag bod mor gorfforol weithgar ag y hoffwn fod.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae diffyg cyfleusterau toiledau cyhoeddus yn fy atal rhag mynychu lleoliadau ble mae gweithgareddau hamdden yn digwydd.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae yna ddigon o ddarpariaeth o doiledau addas i alluogi i fi fynd at fannau gwyrdd, fel parciau, camlesi, coetiroedd a mannau eraill yn yr awyr agored.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Buaswn yn mynd i fannau gwyrdd yn fwy rheolaidd pe bai yna fwy o gyfleusterau toiledau addas	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Rydw i'n aml eisiau defnyddio cyfleusterau toiledau y tu allan i'w horiau agor arferol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Buaswn yn fodlon talu swm rhesymol i ddefnyddio toiledau cyhoeddus pe bai hyn yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwelliannau mewn cyfleusterau toiledau	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Mae yna ddigon o gyfleusterau toiledau ym Mlaenafon i gwrdd â fy anghenion:

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i Gytuno
- Niwtral
- Tueddu i Anghytuno
- Anghytuno'n Gryf
- Ddim yn gwybod neu ddim yn berthnasol

Mae yna ddigon o gyfleusterau toiledau yng Nghwmbrân i gwrdd â fy anghenion:

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i Gytuno
- Niwtral
- Tueddu i Anghytuno
- Anghytuno'n Gryf
- Ddim yn gwybod neu ddim yn berthnasol

Mae yna ddigon o gyfleusterau toiledau ym Mhont-y-pŵl i gwrdd â fy anghenion:

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i Gytuno
- Niwtral
- Tueddu i Anghytuno
- Anghytuno'n Gryf
- Ddim yn gwybod neu ddim yn berthnasol

Rwy'n teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio toiledau busnesau heb brynu neu ddefnyddio'u gwasanaethau:

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i Gytuno
- Niwtral
- Tueddu i Anghytuno
- Anghytuno'n Gryf
- Ddim yn gwybod neu ddim yn berthnasol

Buaswn i'n teimlo'n fwy cyfforddus ynglŷn â defnyddio cyfleusterau busnesau pe baen nhw'n arddangos arwydd i ddangos bod modd defnyddio'u cyfleusterau heb brynu neu ddefnyddio'u gwasanaethau:

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i Gytuno
- Niwtral
- Tueddu i Anghytuno
- Anghytuno'n Gryf
- Ddim yn gwybod neu ddim yn berthnasol

Byddwch yn ymwybodol fod busnesau sy'n arddangos yr arwydd canlynol wedi dweud eu bod yn hapus i bobl nad sy'n gwsmeriaid i ddefnyddio'u cyfleusterau. Edrychwch am y symbol yma, mae'n golygu y gallwch alw i mewn a defnyddio'r toiledau; does dim rhaid i chi ddefnyddio gwasanaethau'r adeilad hwnnw.



### Adran 3: Eich Sylwadau

Oes yna fannau gwyrdd penodol ble hoffech chi weld cyfleusterau toiledau neu gyfleusterau toiledau gwell? Os felly, ble?

Oes yna unrhyw adeiladau, cyfleusterau/gwasanaethau neu leoedd (o unrhyw fath) yn Nhorfaen yr hoffech gael mynediad atynt ond rydych yn methu oherwydd diffyg toiledau addas? Os oes, esboniwch:

Oes yna gyfleusterau toiledau ar hyn o bryd yr ydych yn teimlo bod angen eu gwella? (Cewch gyfle i roi adborth mwy manwl ar doiled penodol unwaith bydd yr arolwg yma ar ben, os fyddwch yn dymuno)

Os oes rhywbeth arall yr hoffech ddweud am doiledau yn Nhorfaen, gwnewch hynny yma:

## Amdanoch chi

Cwblhewch yr adran hon fel ein bod yn gwybod ein bod wedi gofyn i groestoriad da o bobl o'n cymunedau. Rydym am i bawb gael eu cynrychioli.

Gofynnwn i chi roi eich oed, rhyw a nodi a ydych chi'n ystyried fod gennych anabledd, fel y gallwn bwysu'r atebion i'r arolwg; bydd hyn yn sicrhau fod canlyniadau'r arolwg yn cynrychioli proffil poblogaeth Torfaen yn gyfan. Gofynnwn am eich cod post fel y gallwn gydgasglu atebion i'r ardaloedd cymunedol ble mae pobl yn byw; mae hyn yn ein helpu i ddeall y gwahaniaethau rhwng ardaloedd cymunedol.

Beth yw eich oed?

- 0-17 oed
- 18-34 oed
- 35-49 oed
- 50-64 oed
- 65+ oed

Beth yw eich rhyw? (Dewiswch pa ryw bynnag yr ydych yn uniaethu â hi)

- Gwrywaidd
- Benywaidd
- Trawsrywiol

Ydych chi'n ystyried fod gennych anabledd?

- Ydw
- Nac Ydw

Beth yw eich cod post?

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn

Bydd eich ymateb yn cael ei adolygu gan staff yn yr Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych chi a phobl eraill sydd wedi ymateb wedi ei rhoi i'n helpu i ddeall profiadau pobl. Byddwn yn defnyddio'r mewnwelediad yma i gynhyrchu 'Asesiad Angen', a fydd yn trwytho'r Strategaeth Toiledau Lleol yr ydym yn gweithio arni ar hyn o bryd.

Bydd drafft o'r Strategaeth Toiledau Lleol ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos, rhwng Hydref a Rhagfyr 2018. Bydd sylwadau'n cael eu hadolygu a byddwn yn gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol yn gynnar yn 2019. Bydd drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i banel craffu a bydd unrhyw ddiwygiadau eraill yn cael eu gwneud. Byddwn yn cyhoeddi'r Strategaeth Toiledau Lleol erbyn 31ain Mai 2019. Bydd y strategaeth yn dylanwadu ar ddewisiadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn y dyfodol ac er nad oes gennym gyllideb sylweddol i greu cyfleusterau toiledau ychwanegol na gwella cyfleusterau presennol, rydym yn gobeithio y bydd modd i ni weithio gyda busnesau a phartneriaid eraill i ddarparu atebion i rai o'r materion sy'n cael eu codi.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu map ar-lein o gyfleusterau toiledau a newid babanod sydd ar gael ar draws Cymru. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn darparu gwybodaeth i sicrhau fod yr holl gyfleusterau yn Nhorfaen yn cael eu cynnwys. Byddwn yn darparu dolen i'r map ar ein gwefan, pan fydd ar gael. Rydym eisoes yn darparu gwybodaeth ar doiledau yn Nhorfaen ar ein gwefan.

Os hoffech gysylltu â ni ynglŷn â'r arolwg yma, cysylltwch â:

Steven Honeywill

Partnerships and Policy Officer | Swyddog Partneriaeth a Pholisi

Public Services Support Unit | Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus

Torfaen County Borough Council | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Civic Centre | Y Ganolfan Ddinesig

Pontypool | Pont-y-pŵl

NP4 6YB

Phone | Ffôn: 01495 766958

E-mail | E-bost: [pssu@torfaen.gov.uk](mailto:pssu@torfaen.gov.uk)